Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol-y-Gogarth

**Ffordd Nant-y-Gamar**
**Craig-y-Don**
**Llandudno**
**LL30 1YE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Mr Glyn Griffiths**

**O dan gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol-y-Gogarth yn ysgol arbennig ddydd a phreswyl sydd wedi ei lleoli yn nhref arfordirol Llandudno. Adeg yr arolygiad, roedd 170 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol (112 o fechgyn a 58 o ferched). Mae'r dysgwyr rhwng tair ac 19 blwydd oed, a chaiff yr ysgol ei chynnal gan Awdurdod Lleol Conwy (ALl).

Mae'r dysgwyr un a'i yn dal datganiad llawn neu yn y broses o gael datganiad, ac mae ganddynt sbectrwm eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a dwys a lluosog a dysgwyr sydd yn arddangos anhwylder syndromau awtistiaeth.

Daw'r rhan fwyaf o ddysgwyr o ardal Bwrdeistref Conwy, gydag ychydig iawn yn dod o awdurdodau lleol cyfagos.

Mae gan yr ysgol gyfleuster preswyl sydd yn cynnig lleoliadau tymor-byr i uchafswm o 10 disgybl sydd wedi eu dynodi trwy'r broses adolygu flynyddol a chan staff fel rhai byddai'n manteisio oddi wrth leoliad o'r fath.

Mae'r ysgol yn cynnig nifer o gyfleusterau arbenigol gan gynnwys pwll nofio a hydrotherapi, dosbarthiadau synhwyred ac awtistiaeth, amgylcheddau dysgu y tu allan ac amrediad o gyfleusterau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am ddarparu ffisiotherapi, therapi lleferydd, therapi galwedigaethol, nyrsio dyddiol a chynorthwyon gofal iechyd o fewn yr ysgol.

Dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dod o grwpiau lleiafrifol ethnig a dim ond ychydig o ddisgyblion sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

Mae gan 39% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim, cyfran sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion arbennig yng Nghymru.

Arwyddair yr ysgol yw 'Ble mae plant yn dod yn gyntaf' ac mae'r ysgol yn bwriadu cyflawni potential y dysgwyr mewn awyrgylch hapus, hamddenol cartrefol ond gweithgar.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi pennaeth newydd ym Medi 2009.

Yn 2010-11, y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Gogarth yw £17,058 sydd yn cymharu gyda chyfartaledd cenedlaethol o £17,405 ar gyfer yr holl ysgolion arbennig yng Nghymru.

Cafodd yr ysgol eu harolygu diwethaf ym Mai 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae gan yr ysgol llawer o gryfderau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y cyflawniad a'r cynnydd da a wnaed gan bron yr holl ddisgyblion;
- ansawdd rhagorol y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd sydd yn arwain at safonau uchel o ran lles y disgyblion;
- ymrwymiad holl aelodau'r staff at ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu i'r disgyblion; a'r
- partneriaethau cryf iawn, yn enwedig gyda'r rhieni a'r gymuned.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan yr ysgol rhagolygon rhagorol ar gyfer gwelliant oherwydd:

- arweinyddiaeth ragorol y pennaeth;
- gweledigaeth strategol eglur yr ysgol;
- y modd mae'r ysgol yn ffocysu ar wella deilliannau disgyblion; a
- dealltwriaeth dda iawn yr ysgol o anghenion ei holl ddisgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r ysgol:

A1 wella medrau dwyieithog y disgyblion;

A2 wella ymhellach y medrau sy'n gysylltiedig ag asesu ar gyfer dysgu; a

A3 sicrhau fod yr holl brofiadau dysgu yn diwallu anghenion penodol grwpiau o ddysgwyr.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu fydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol. Ym mhob cyfnod allweddol, mae safonau cyflawniad yng ngwaith y disgyblion yn dda.

Mae'r holl ddysgwyr oddi fewn i adran hŷn yr ysgol yn ennill cymwysterau cydnabyddedig erbyn iddynt adael yr ysgol. Dengys canlyniadau cyrsiau achrededig fod dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16 yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n dda. Maent yn ffocysu ar y siaradwr ac yn cynnal eu canolbwyntiad am gyfnodau hir. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu.

Dengys y rhan fwyaf o ddysgwyr medrau ysgrifennu da ac sydd yn datblygu. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn dangos ystod dda o eirfa o fewn cyd-destun penodol ac maent yn ysgrifennu brawddegau syml er mwyn mynegi eu hunain. Mae dysgwyr hŷn yn ateb cwestiynau trwy ysgrifennu'n eglur a chryno.

Ymateba'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus i gwestiynau mewn gweithgareddau grŵp ac unigol a defnyddiant amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu. Gwnânt ddefnydd da o awgrymiadau gweledol i wella ac ymestyn eu medrau llafar a chyfathrebu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ynganu a rhannu medrau newydd gydag eraill, gan wneud defnydd effeithiol o gymalau priodol yn ystod gwersi. Mae'r disgyblion ieuengach yn arddangos gwybodaeth dda o symbolau i ddehongli'r gweithrediadau a gynlluniwyd ar gyfer y diwrnod.

Mae'r dysgwyr sydd ag anghenion mwy dwys yn gwneud defnydd effeithiol o gyfarpar ac adnoddau cyfathrebu. Mae llawer yn cynnal ffocws trwy symudiad llygaid ac ystumiau ac maent yn ymateb yn dda i ysgogiadau gweledol a chlywedol megis wrth ddynodi hoffterau personol.

Gwna bron yr holl ddysgwyr gynnydd da wrth ddarllen ac wrth gymhwyso medrau rhif. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn arddangos dealltwriaeth sylfaenol o rifo, dynodi siapau a thrin arian.

Mae ychydig o ddysgwyr yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg, yn enwedig y rhai sy'n dod o gartrefi lle siaradir y Gymraeg. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn y defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr ar draws yr ysgol.

Dengys bron yr holl o'r dysgwyr hŷn cymhwysiad da iawn o sgiliau ar ystod o dasgau a phrosiectau galwedigaethol sydd yn cynnwys partneriaid lleol, yn ogystal ac mewn lleoliadau profiad gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio technoleg gwybodaeth mewn ystod o weithgareddau gyda'r dysgwyr mwy galluog yn cynhyrchu cyflwyniadau PowerPoint ac yn cynnal ymchwil yn hyderus ar y rhyngrwyd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth dda iawn o faterion cynaliadwy megis garddio ac ailgylchu. Mae'r profiadau hyn yn gwella medrau menter ac yn dangos fod llawer ohonynt yn medru gwneud penderfyniadau, gweithio'n effeithiol gydag eraill ac yn dangos cymhwysiad da o fedrau meddwl.

Mae data asesu yn dynodi fod cyflawniad dysgwyr yn gyson dda ac mae bron yr holl ddysgwyr yn ymateb yn dda i raglenni addysgu unigol gan wneud cynnydd da tuag at dargedau eu cynlluniau addysgol unigol (CAUau).

Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched mewn darllen a sillafu. Mae'r cynnydd a wneir gan y dysgwyr hynny sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol gyda grwpiau eraill o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae dysgwyr o fewn y grŵp ethnic lleiafrifol wedi gwneud cynnydd sydd yn is na'r cyfartaledd o ganlyniad i gyfnodau o absenoldeb a phroblemau ymddygiadol sylweddol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau mae dysgwyr yn cyflawni gyda chyfartaleddau cenedlaethol nag i ddadansoddi tueddiadau perfformiad dros amser oherwydd yr ystod eang o ADY.

**Lles: Rhagorol**

Mae lles y dysgwyr yn rhagorol.

Teimla'r dysgwyr yn ddiogel yn yr ysgol, maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n awchus yn y gwersi.

Mae ymddygiad yn yr ysgol yn dda iawn, oddi fewn a thu allan i'r dosbarth, gyda'r dysgwyr yn dangos cryn barch a gofal y naill am y llall.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ymwybyddiaeth dda iawn o fwyta'n iach a'r angen i gadw'n iach. Mae ganddynt ymagwedd gadarnhaol tuag at ymarfer corfforol ac mae eu cyfranogiad mewn ystod o weithgareddau yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol yn hynod o uchel.

Mae presenoldeb yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol ysgolion arbennig Gymru gyfan. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau ac maent yn cynrychioli safbwyntiau'r dysgwyr yn dda. Mae eu cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau wedi ei gydnabod gan y prosiect Llais Disgyblion Cymru fel enghraifft batrymol i ysgolion arbennig eraill. Mae'r dysgwyr yn chwarae rôl helaeth a chefnogol yn eu cymuned.

Mae'r dysgwyr yn mwynhau'r amrywiaeth cyfoethog o brofiadau allgyrsiol gaiff eu cynnig. Mae'r profiadau galwedigaethol helaeth a gaiff y disgyblion a'r dysgu dilynol a gyflawnir yn arfer sydd yn arwain y sector. Mae'r profiadau hyn yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer gwaith a bywyd y tu allan i'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer profiadau dysgu yn dda.

Yn gyffredinol, caiff y cwricwlwm ei addasu'n briodol i ddiwallu anghenion a galluoedd disgyblion sydd yn eang ac yn aml yn gymhleth. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, nid yw strwythur a chyflwyniad y profiadau dysgu bob amser yn diwallu anghenion penodol grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu ac yn cadw cofnodion manwl o gyraeddiadau pob dysgwyr a chaiff y rhain eu defnyddio'n effeithiol wrth gynllunio cynlluniau gwaith addas. Caiff ymyraethau arbenigol eu gweithredu'n ddychmygus er mwyn cefnogi datblygiad cyfannol y disgyblion.

Mae'r amrediad helaeth o raglenni galwedigaethol 14-19 a gyflwynir gan yr ysgol, ynghyd â'r gefnogaeth helaeth oddi wrth y deiliaid diddordeb partner, yn arfer sydd yn arwain y sector ac mae'n gwneud cyfraniad nodedig tuag at ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned.

Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau allweddol yn dda. Mae'r staff yn gweithio fel tîm cydlynol a thrwy gydweithio effeithiol maent yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu medrau mewn cyfathrebu, llythrennedd, annibyniaeth, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, meddwl a'r gallu i weithio gydag eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn dda; mae'n cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth a chyd-destun hanesyddol Cymru. Fodd bynnag, mae dwyieithrwydd yn danddatblygedig ar draws yr ysgol.

Trwy'r rhaglenni galwedigaethol yn benodol, mae'r ysgol yn darparu profiadau a chyfleoedd da iawn ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'r profiadau dysgu sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth fyd-eang yn arwain y sector gyda'r ysgol wedi cyflawni'r wobr Ysgol Ryngwladol ers 2001. Mae'r ysgol a'r disgyblion wedi manteisio oddi wrth amrywiol weithgareddau a phrofiadau gyda gwledydd Ewropeaidd a rhai ymhellach i ffwrdd.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen drawiadol o glybiau amser cinio ac ar ôl ysgol sydd yn gwella dysgu'r disgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda ac mae ychydig o enghreifftiau o addysgu rhagorol.

Mae'r gwaith cydweithredol rhagorol rhwng yr holl staff a'r perthnasau rhagorol rhwng y staff a'r dysgwyr yn sicrhau amgylchedd lle teimla'r dysgwyr y cânt eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i gyflawni safonau da.

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel a gwybodaeth bynciol da gaiff ei ddefnyddio i gyflwyno gwersi ysgogol. Defnyddia'r staff amrediad o adnoddau, gan gynnwys amgylchedd yr ysgol, mewn dull dychmygus.

Caiff gwersi eu cynllunio'n dda, eu strwythuro a'u haddasu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion unigol.

Mae gan yr ysgol system eglur ac effeithiol ar gyfer asesu disgyblion. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sicrhau fod staff yn darparu targedau addas ond heriol.

Mae llawer o'r dysgwyr yn gwybod sut i osod targedau eu hunain ac yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut i'w cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu adlewyrchu ar a gwerthuso eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw eu defnydd o dechnegau asesu er mwyn dynodi dulliau o wella wedi gwreiddio'n llawn.

Mae adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn cynnwys cyfleoedd i rieni rhoi sylwadau.

Mae adolygiadau ac adroddiadau blynyddol yn diwallu'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd yn rhagorol, caiff ei fwyhau gan amrediad eang o gefnogaeth arbenigol amlasiantaethol effeithiol.

Mae polisïau priodol mewn lle i hyrwyddo byw yn iach a lles gydag ymrwymiad cryf tuag at ymdriniaethau iachus o ran diet ac ymarfer.

Mae staff yn annog dysgwyr i ddatblygu hunan-barch trwy ddefnydd effeithiol o glod, modelau rôl gadarnhaol, y 'Terrific Tree' a'r system pwyntiau llys ysgol. Dywed y dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae addoli ar y cyd yn diwallu'r gofynion statudol, fodd bynnag, mewn ychydig o achosion nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer myfyrio a datblygiad ysbrydol.

Mae gan staff yr ysgol gysylltiadau da iawn gydag asiantaethau allanol er enghraifft Gyrfa Cymru, swyddog cyswllt yr heddlu a'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith. Caiff y dysgwyr eu cefnogi gan hyfforddwr dysgu cymwysedig sydd yn gweithio'n effeithiol gyda'r dysgwyr, y rhieni a'r staff dosbarth.

Ceir polisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelwch.

Caiff dysgwyr sydd ag ADY eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol, gan gynnwys y cyfleoedd ar gyfer profiadau preswyl. Mae staff yn datblygu rhaglenni unigol effeithiol sydd yn cael effaith cadarnhaol ar y dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a hynod gefnogol sydd yn gwerthfawrogi pob dysgwyr. Rhydd y staff ystyriaeth i anghenion, galluoedd, diddordebau a chefndiroedd disgyblion er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i ddysgu y tu allan i'r ysgol. Caiff cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth eu hyrwyddo ar draws yr ysgol.

Darpara'r ysgol amgylchedd croesawgar, gofalgar a chadarnhaol iawn; mae'n meddu ar amrediad o adnoddau, sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda, i ddiwallu anghenion y dysgwyr.

Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda, fodd bynnag, nid oes digon o le mewn ychydig o'r dosbarthiadau ar gyfer yr amrywiol weithgareddau a gynllunnir i ddiwallu ystod eang o anghenion y disgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r arddangosfeydd yn ddeniadol ac yn adlewyrch amgylchedd ysgogol gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Caiff llawer o'r arddangosfeydd eu cefnogi gan fotymau a symbolau cyfathrebu sydd yn cefnogi medrau llythrennedd a gwrando'r disgyblion yn effeithiol.

Caiff tir yr ysgol ei gadw'n dda a'i ddefnyddio'n dda i ymestyn profiadau dysgu awyr agored. Mae'r ardal arddwriaethol eang wedi galluogi cyflwyno mwy o opsiynau galwedigaethol i ddysgwyr yn yr adran uwchradd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol yn rhagorol. Yn yr amser gymharol fyr ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi sefydlu dealltwriaeth gyfrannol o gyfeiriad strategol yr ysgol er mwyn creu diwylliant dysgu ymatebol sydd yn ymdrechu ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r uwch dîm rheoli yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo ymddygiadau a gwerthoedd sydd yn cyfrannu at ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi.

Mae ysbryd y staff yn uchel; cyflawnwyd hyn trwy ddatblygiad sensitif o ysbryd tîm cryf ymhlith y staff. Mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad yn arddangos y disgwyliadau a'r dyheadau uchaf sydd ganddynt ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Ceir ymrwymiad a gweledigaeth eglur tuag at wella deilliannau a darparu'r cyfleoedd gorau i'r holl ddisgyblion ar gyfer dysgu. Defnyddia arweinwyr a llywodraethwyr wybodaeth perfformiad yn effeithiol iawn i osod nodau a thargedau sydd yn flaenoriaethau strategol. Mae gweledigaeth gyfrannol yr ysgol gyda'r ALl wedi sicrhau cais llwyddiannus i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn adeiladu ysgol newydd.

Mae disgrifiadau swydd yn eglur ac mae aelodau'r staff yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn darparu cyfleoedd da iawn i bawb drafod cynnydd, caffael medrau newydd ac i adlewyrchu ar a rhannu arfer da.

Mae'r ysgol yn effeithiol iawn wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Rhoddir ystyriaeth gofalus i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol ac mae ei athroniaeth eisoes yn amlwg yn yr ysgol. Dengys yr ysgol ymrwymiad eglur at werth y Cymunedau Dysgu Proffesiynol, oddi fewn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei weithredu'n llwyddiannus a'i gydnabod yn lleol ac yn genedlaethol fel enghraifft o arfer da.

Cyfranna'r corff llywodraethu yn effeithiol at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn dod yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda am yr holl faterion sydd yn effeithio ar yr ysgol. Mae gan yr holl lywodraethwyr rolau sydd wedi eu diffinio'n eglur o fewn y strwythur o bwyllgorau a chânt eu cefnogi'n dda gan raglenni hyfforddiant mewnol a rhai'r ALl. Maent yn gweithredu'n effeithiol iawn fel ffrindiau beirniadol ac yn dal yr ysgol yn ymatebol am safonau drwy waith da'r pwyllgor cwricwlwm/safonau. Mae'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu gweithdrefn cwynion priodol ac yn sicrhau caiff hwn ei egluro'n ddigonol i'r rhieni.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r broses o hunan arfarnu a datblygu cynllunio yn rhagorol. Mae diwylliant hunan beirniadol a chefnogol wedi ei wreiddio'n gadarn er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r perfformiad. Mae hyn yn arwain at ddeilliannau eglur sydd yn goleuo blaenoriaethau i'r dyfodol a, lle bod angen, y gweithredoedd gall fod eu hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Cytunir ar y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) yn dilyn archwiliadau gofalus a dadansoddiad o'r wybodaeth sydd ar gael. Mae'r cyswllt rhwng y broses hunan arfarnu, y blaenoriaethau yn y CDY a'r targedau i wella deilliannau disgyblion yn eglur. Mae'r rhain wedi eu hegluro'n ofalus, eu rhannu a'u cytuno gyda'r holl bartïon sydd â diddordeb.

Mae'r corff llywodraethu a'r pennaeth yn darparu adnoddau da i gefnogi blaenoriaethau yn yr addysgu a'r dysgu. Caiff cynnydd ei fonitro a'i arfarnu yn gyson ac effeithiol.

Mae'r gymuned ddysgu broffesiynol hynod effeithiol o fewn yr ysgol a thu hwnt yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol a llwyddiannus. Mae'r ymglymiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r holl argymhellion o'r adroddiad ar yr arolygiad diwethaf ac mae gwelliant yn yr adeiladau i'w wireddu'n fuan wrth adeiladu'r ysgol newydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau strategol effeithiol gyda rhieni/gofalwyr ac amrediad o asiantaethau allanol sydd yn cynnwys y gymuned leol a grwpiau ALl megis y tîm anhwylder syndromau awtistiaeth.

Derbynia'r disgyblion hŷn gefnogaeth a chyngor o ansawdd uchel oddi wrth Gyrfa Cymru, yn enwedig wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i'r coleg.

Gwna'r ysgol ddefnydd pwrpasol o'i chyllid 'Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig' er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn ysgolion prif ffrwd, a hefyd i gefnogi'r staff sydd yn gweithio gyda nhw.

Mae arferion gwaith ar y cyd a threfniadau cydweithredol fel rhan o'r Rhwydwaith Dysgu 14-19 wedi eu hen sefydlu; mae rheoli ansawdd darparwyr allanol yn rhan o weithdrefn monitro ac arfarnu'r ysgol i sicrhau safonau uchel o ddarpariaeth

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth arbennig o gryf gyda phrifysgol leol, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad, hunan barch a hyder y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o athrawon arbenigol profiadol a staff cynnal gaiff eu rheoli'n dda a'i defnyddio'n effeithiol.

Caiff staff fynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus a gynlluniwyd i fwyhau eu medrau a'u gwybodaeth; mae hyn yn sicrhau eu bod yn effeithiol wrth ddarparu amrediad eang o brofiadau dysgu wedi eu personoli ar gyfer y disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ag asesu ac mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith' (2003).

Mae adnoddau'r ysgol o ansawdd dda ac yn gyffredinol wedi eu cydweddu a'u rheoli'n dda er mwyn diwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion.

Caiff rheolaeth ariannol yr ysgol ei fonitro'n llym trwy weithdrefnau cadarn sydd yn gynnwys aelodau o'r corff llywodraethu a staff gweinyddol uwch. Mae'r staff uwch yn sicrhau fod adnoddau ar gael i gefnogi creu amgylchedd ddysgu pwrpasol. Ceir gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau caiff gwariant ei ddynodi'n briodol i ddiwallu'r blaenoriaethau a ddynodwyd.

O ystyried y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion, ansawdd yr addysgu a'r rheolaeth lem o adnoddau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Dywed yr holl o'r 52 o rieni a ymatebodd i'r holiadur cyn-arolwg eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Creda'r holl rieni fod yr addysgu'n dda a bod y plant yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Creda'r holl rieni fod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ymgymryd â chyfrifoldeb. Creda ychydig iawn o rieni nad yw'r gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Dywed yr holl o'r 38 o ddysgwyr a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Roeddent oll yn teimlo fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer. Teimlant i gyd fod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Creda bron yr holl o'r disgyblion fod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a theimlant fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Griffiths | Arolygydd Cofnodol |
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Tîm |
| Iorylle Aubrey | Arolygydd Tîm |
| Ian Elliott | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Lynne Alton | Arolygydd Cymheiriad |
| Jonathan Morgan | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf, Swît F2A Tŷ Britannic, Ffordd Britannic, Llandarcy, Castell-nedd, SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |